

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran

Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o lyfr Exodus

Yn y rhifyn hwn, mae "ch", "dd", "ff", "ng", "ll", "ph", "rh" ac "th" yn cael eu trin fel dwy lythyren yn y posau a rhoddir nhw mewn dau flwch ar wahân




DARLLENWCH  
Exodus 1 a 2



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Hebraid 11:23

Gofynnwch am  
help i chwilio am  
yr adnod hon

## Stori 1 Genedigaeth Moses.



Roedd yr Israeliaid yn perthyn i linach Joseff a'i frodyr. Roedden nhw wedi bod yn byw yn yr Aiffet ers nifer o flynyddoedd. Daeth brenin newydd i'r orsedd yn yr Aiffet a doedd e ddim yn hapus bod yr estroniaid hyn yn ei wlad. Roedd ofn arno y bydden nhw'n mynd yn fwy niferus na'i bobl ei hun. Gorfododd yr Israeliaid i weithio fel caethweision.

Lliwiwch y llun

4

### C Beth oedd yr Israeliaid?

C \_\_\_\_\_

Roedd y Brenin Pharo mor gynddeiriog, penderfynodd foddï holl fechgyn bach yr Israeliaid yn yr Afon Neil. (Gelwir yr Israeliaid yn Hebraid weithiau.) Cafodd Moses ei eni bryd hyn. Roedd yn faban hardd ac roedd ei rieni yn credu y byddai Duw'n ei warchod rhag milwyr Pharo. Cuddiodd rhieni Moses eu mab bach yn y tŷ am dri mis, ond doedd dim modd iddyn nhw ei guddio am hir wedi hynny. Aeth ei fam ati i wneud cawell diddos o lafrwyn. Gosododd y baban yn y cawell a'i guddio yn y corswellt ar lan yr afon.

**C** Beth oedd enw'r afon? Lliwiwch bob sgwâr sy'n cynnwys X er mwyn dod o hyd i'r ateb cywir.

X	A	X	F	X	O	X	X	N	X	X
X	N	X	E	X	I	X	L	X		

4

Anfonwyd Miriam, chwaer y baban, i weld beth fyddai'n digwydd iddo. Daeth merch Pharo o hyd i'r bachgen bach pan ddaeth i lawr i'r afon i ymdrochi. Pan welodd hi'r baban, roedd e'n crïo, ac roedd hi'n teimlo'n flin drosto. Sylweddolodd mai un o fabanod yr Hebreaid oedd e. Cynigiodd Miriam ddod o hyd i nyrs i'r baban. Aeth Miriam i nôl mam y baban er mwyn iddi hi edrych ar ei ôl ar ran merch Pharo! Ar ôl peth amser, aeth merch Pharo ag ef i'r palas i'w fagu fel ei mab ei hun.



**C** Ysgrifennwch DO neu NADDO ar ôl y canlynol:

8

1. Daeth y Brenin Pharo o hyd i'r baban. ....
2. Cynigiodd Miriam ddod o hyd i nyrs. ....
3. Cuddiodd rhieni'r baban ef am bedwar mis. ....
4. Roedd gan ei rieni ffydd yn Nuw. ....

Roedd Duw wedi bod yn gwyllo dros Moses drwy'r amser. Dylai fod wedi cael ei fodd fel pob un o'r bechgyn bach arall, ond roedd gan ei rieni FFYDD yn Nuw. Roedden nhw'n credu y byddai Duw yn gofalu amdano. Bydd Duw yn gofalu amdanom ni heddiw, os byddwn yn ymddiried ynddo Ef.

“Bydded  
gennych ffydd  
yn Nuw.”

4

Lliwiwch y geiriau o Efengyl Marc 11:22.



DARLLENWCH  
Exodus 2: 11-15



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Numeri 32: 23

Gofynnwch am  
help i chwilio am  
yr adnod hon.

## Stori 2 Camgymeriad mawr Moses.

Mae Moses erbyn hyn yn ddyn tua 40 oed ac mae e wedi bod yn byw ym mhalas Pharo am lawer o flynyddoedd. Ond cofiwch, bu ei fam ei hun yn nyrs iddo. Roedd hi wedi ei ddysgu am y gwir Dduw ac am yr Hebreaid, sef ei bobl ei hun.

Un diwrnod, aeth Moses i ymweld â'i bobl. Gwelodd un ohonyn nhw'n cael ei guro gan Eifftiad. Edrychodd Moses o'i gwmpas. Gwelodd nad oedd neb yn edrych, felly lladdodd y dyn o wlad yr Aifft.



**C** Gosodwch y geiriau sy'n dilyn yn y manau cywir yn y frawddeg er mwyn gweld beth wnaeth Moses wedyn.

tywod cuddiodd corff

C \_\_\_\_\_ y c \_\_\_\_\_ yn y t \_\_\_\_\_


3

Drannoeth, gwelodd Moses ddau Hebrëwr yn ymladd. Ceisiodd roi stop ar y cwffio. Dywedodd un o'r dynion:

**C** Defnyddiwch y cliwiau hyn i gwblhau'r Grid Geiriau.

Pwy a'th benododd di yn bennaeth ac yn farnwr arnom? A wyt am fy lladd i fel y lleddaist yr Eifftiwr?

1. Dywedodd yr Hebrëwr wrth Moses, "Pwy a'th benododd di yn bennaeth ac yn \_\_\_\_\_ arnom?"
2. Lladdodd Moses ddyn o'r wlad hon.
3. Cuddiodd Moses hwn yn y tywod.
4. Gwelodd Moses ddau Hebrëwr yn gwneud hyn.



8

Roedd Moses yn meddwl na fyddai'n cael ei ddal. Ond roedd rhywun wedi gweld beth wnaeth e! Rydym ni weithiau'n meddwl na chawn ni ein dal pan fyddwn ni'n gwneud pethau drwg. Ond mae'r Beibl yn dweud:



“Gewch  
wybod y  
bydd eich  
pechod yn  
eich dal.”

5

### Lliwch yr Adnod Allweddol.

Pan ddaeth Pharo i wybod beth roedd Moses wedi'i wneud, roedd e eisiau ei ladd. Felly, dyma Moses yn dianc i wlad Midian. Yn lle byw ym mhalas Pharo, roedd rhaid i Moses fyw yn yr anialwch. Bu'n gweithio fel bugail i ddyn o'r enw Jethro.

### **C** Lliwch yr hanner cylch sydd wrth ymyl yr ateb cywir.

Dihangodd Moses i wlad – Midian



Edom.

Bu Moses yn gweithio fel – milwr



bugail

Nid Pharo'n unig oedd yn gwybod beth wnaeth Moses – roedd Duw hefyd yn gwybod! Mae Ef yn gweld ac yn gwybod popeth rydyn ni'n ei wneud. Does dim wedi ei guddio oddi wrtho Ef! Yn wir, mae Duw'n gwybod y cyfan fyddwch chi'n ei wneud, ei ddweud a'i feddwl – a dylai hynny wneud i chi feddwl yn galed!



4



DARLLENWCH  
Exodus 3: 1-22

### Stori 3 Moses yn gweld perth yn llosgi.

Roedd Moses wedi bod yn byw yn yr anialwch am tua 40 mlynedd. Erbyn hyn, roedd wedi priodi un o ferched Jethro.

Un diwrnod, pan oedd yn bugeilio defaid Jethro, gwelodd olygfa ryfedd iawn.

**C** Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob un o'r lluniau i ddarganfod beth yw'r olygfa ryfedd.




\_\_\_\_\_

4

ADNOD ALLWEDDOL  
Exodus 3: 12

Gofynnwch am  
help i chwilio am  
yr adnod hon.


Roedd perthi ar dân yn beth digon cyffredin yn yr anialwch. Ond roedd y berth hon yn wahanol. Roedd ar dân, ond doedd hi ddim yn llosgi nac yn cael ei difa!



3

### Lliwiwch y llun


Roedd Moses yn chwilfrydig, felly aeth yn nes er mwyn cael gweld. Siaradodd Duw â Moses o ganol y berth. "Moses, Moses!", meddai'r Arglwydd. Yna dywedodd Duw wrth Moses am dynnu ei esgidiau. Esboniodd Duw wrtho fod y llecyn roedd yn sefyll arno yn dir sanctaidd. Roedd hwn yn llecyn arbennig iawn oherwydd roedd Duw yno!



Doedd Duw ddim wedi anghofio am Moses, er bod Moses wedi gwneud pethau drwg yn yr Aifft flynyddoedd lawer cyn hynny. Roedd yr Arglwydd yn fodlon maddau iddo, a nawr roedd ganddo waith arbennig ar ei gyfer.

**C** Gosodwch y geiriau sy'n dilyn yn y bylchau cywir er mwyn darganfod beth ddywedodd Duw wrth Moses am wneud.

Aifft      Pharo      Israeliaid



6

Doedd Moses ddim yn teimlo mai fe oedd yr un i wneud gwaith mor bwysig. Dechreuodd hel esgusodion. Dyma'r geiriau ddywedodd Duw wrth Moses er mwyn tawelu ei feddwl.



“Byddaf fi  
gyda thi.”

5

**Lliwch yr Adnod Allweddol.**

O'r diwedd, cytunodd Moses i fynd at Pharo a dweud wrtho am ollwng yr Israeliaid yn rhydd. Anfonodd Duw Aaron gyda Moses i'w helpu. Roedd Aaron yn frawd i Moses.

**C** Tanlinellwch enw brawd Moses.

2

Adda      Aaron      Andreas      Abraham

Er bod Moses wedi lladd rhywun, roedd Duw yn dal eisiau ei ddefnyddio. Mae Duw bob tro yn barod i faddau i ni, pan fyddwn ni'n dweud 'sori' wrtho. Wedyn bydd Duw yn rhoi gwaith i ni ei wneud drosto.



DARLLENWCH  
Exodus 4: 1-23



ADNOD ALLWEDDOL  
Exodus 4: 15

Gofynnwch am  
help i chwilio am  
yr adnod hon


## Stori 4 Moses yn dod â neges Duw.

Roedd Duw wedi gofyn i Moses wneud gwaith mawr drosto Ef. Roedd Aaron yn mynd i'w helpu, drwy siarad ar ei ran. Hefyd, rhoddodd Duw i Moses y gallu i wneud pethau arbennig.

### C Aildrefnwch y geiriau a'u gosod yn y bylchau.

Pan daflodd Moses ei ffon ar lawr, dyma hi'n troi yn  
rsfaf \_\_\_\_\_.

Pan roddodd Moses ei **alw** \_\_\_\_\_ yn ei glogyn, ac yna'i  
thynnu allan, roedd ei law wedi'i gorchuddio gan glefyd  
ofnadwy o'r enw 'gwahanglwyf'. Pan ddododd ei law yn ôl yn  
ei glogyn ac edrych arni eto, roedd mor iach ag oedd o'r  
blaen.



4

Aeth Moses i weld ei dad-yng-nghyfraith, Jethro, a dywedodd wrtho, "Gad imi fynd yn ôl at fy mhobl sydd yn yr Aifft". Atebodd Jethro, "Dos, a rhwydd hynt i ti". Roedd Duw wedi dweud wrth Moses, "Paid â phoeni, mae pawb oedd yn ceisio dy ladd bellach wedi marw".

### C Ysgrifennwch enw'r siaradwr cywir yn y blwch wrth ymyl y swigen siarad.

Dos, a rhwydd  
hynt i ti.

Paid â phoeni,  
mae pawb oedd yn  
ceisio dy ladd bellach  
wedi marw.

Gad imi fynd yn ôl  
at fy mhobl sydd yn  
yr Aifft.

6

Erbyn hyn felly, roedd Moses yn barod i fynd yn ôl i'r Aifft. Doedd hi ddim yn mynd i fod yn dasg hawdd, ond roedd Duw wedi rhoi nifer o addewidion iddo.

**C** Lliwiwch yr addewid y mae Duw yn ei rhoi i bawb sy'n ymddiried ynddo ac yn ufuddhau Iddo.

“Ni’th adawaf  
fyth, ac ni  
chefnaf arnat  
ddim.”

Hebraid 13: 5

6

Dechreuodd Moses a'i wraig a'u dau fab ar eu taith i'r Aifft. Roedden nhw'n teithio ar gefn asyn. Cariodd Moses y ffon arbennig roedd Duw wedi dweud wrtho am ei defnyddio gydag e.

**C** Rhowch ✓ neu X i ddangos pa frawddegau sy'n gywir

Gadawodd Moses ei deulu yng ngwlad Midian. ....

Aeth Moses â ffon arbennig gydag e. ....

Teithiodd Moses ar gefn camel. ....

Roedd gan Moses dri mab. ....

4

Yn union fel roedd Duw wedi trefnu bywyd Moses, o'r cychwyn cyntaf, felly hefyd ein bywyd ni! Pan fyddwn yn cyffesu ein pechodau ac yn rhoi ein ffydd yn yr Arglwydd Iesu, bydd Ef gyda ni bob amser a bydd yn dangos i ni beth mae Ef eisiau i ni ei wneud drosto.



cyfanswm

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

---

---

---

---

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.  
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120